

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Infiniti Healthcare, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 13 Hydref 2022

Dyddiad cyhoeddi: 13 Ionawr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80535-254-9

© Hawlfraint y Goron 2022

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom.....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf.....	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	20
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Infiniti Healthcare ar 13 Hydref 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac adolygwr cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd y tîm gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd Infiniti Healthcare yn ymrwymedig i ddarparu triniaeth i gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Roedd y staff yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion ac ar ddiogelu hawliau'r cleifion yn ystod eu hymweliad â'r clinig. Roedd yr amgylchedd hefyd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd y rheolwr cofrestredig a'r meddygon ymgynghorol yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl y driniaeth fel y gallent wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd yr uwch-aelodau o'r staff yn ymrwymedig i sicrhau bod y cleifion yn cael profiad o safon ac roedd adborth y cleifion yn adlewyrchu hyn, gyda bron pob un o'r cleifion yn dweud bod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'.

Roedd prosesau da ar waith i alluogi'r cleifion i fynegi eu barn am y gofal a gawsant yn yr ysbyty.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi mwy o wybodaeth hybu iechyd am sut y gall cleifion cynnal eu hiechyd cyffredinol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trin y cleifion ag urddas a pharch
- Rhoi gwybodaeth i'r cleifion am y gofal a'r driniaeth a ddarperi, gan gynnwys ôl-ofal.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd amgylchedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda heb unrhyw beryglon amlwg, ac roedd yn gynnes ac yn groesawgar. Roedd yr ystafell aros wedi'i haddurno i safon uchel ac roedd y cynllun wedi'i ystyried yn ofalus.

Dywedodd pob un o'r cleifion fod y clinig yn lân a bod mesurau rheoli haint COVID-19 yn cael eu dilyn, lle y bo'n briodol.

Roedd y clinig yn cynnwys y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol cywir i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw mewn modd amserol.

Roedd y cofnodion clinigol yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Roeddent yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy. Roedd system cofnodion electronig yn cael ei defnyddio yn y clinig ac roedd y system rheoli cofnodion yn galluogi staff awdurdodedig i weld cofnodion.

Hysbysiadau diffyg cydymffurfio:

- Nid oedd gan y clinig drefniadau priodol i ddelio ag argyfyngau meddygol fel digwyddiad cardio-anadlol neu argyfyngau eraill sy'n bygwth bywyd.
- Nid oedd y clinig wedi cynnal safonau priodol o ragofalon tân gan nad oedd wedi dogfennu ymarferion tân ac addasrwydd cyfarpar tân, gan gynnwys larymau tân a goleuadau allanfeydd tân. Nid oedd asesiad risg tân wedi'i gynnal yn ôl yr angen yn 2022.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff unrhyw gynigion o hebryngwyr eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion
- Cynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnal amgylchedd croesawgar i'r cleifion
- Cynnal amgylchedd glân er mwyn lleihau'r risg o heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn meddu ar wybodaeth a sgiliau priodol i ddarparu triniaethau diogel i'r cleifion.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith yn y clinig, ac roeddent yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Roedd y system adnoddau dynol a ddefnyddir yn galluogi'r staff i gofnodi cofnodion hyfforddiant, rheoli'r staff a sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau priodol yn cael eu storio.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol perthnasol
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i'r staff roi gwybod am newidiadau i'w hamgylchiadau a fyddai'n effeithio ar eu statws DBS.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnal trefniadau llywodraethu cadarn
- Dilyn y prosesau cywir ar gyfer recriwtio staff
- Darparu polisiau a gweithdrefnau wedi'u diweddarau i'r staff eu dilyn.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom gyfanswm o 23 o holiaduron wedi'u cwblhau. Mae'r ymatebion a'r sylwadau cyfyngedig yn awgrymu bod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y lleoliad.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Hapus iawn â'r gofal. Roedd y meddyg yn wych a rhoddodd dawelwch meddwl i mi.”

“Roeddwn yn fodlon iawn ar y gofal a gefais”

“Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt, a gwnaethant roi tawelwch meddwl”.

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiadur am eu barn gyffredinol am y gwasanaeth, a nododd pob claf ond un fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Ni wnaed unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella, a chafwyd y sylwadau canlynol gan y cleifion:

“Dim”

“Nid oes angen unrhyw welliannau”.

Diogelu a gwella iechyd

Ychydig iawn o ddeunydd hybu iechyd oedd yn cael ei arddangos yn y clinig. Fodd bynnag, cadarnhaodd y staff y byddai'r cleifion yn cael cyngor hybu iechyd perthnasol yn ystod eu hymgyngoriadau cyn cael triniaeth. Dywedwyd wrthym y byddai'r ymgynghoriad yn cynnwys dewisiadau ffordd o fyw ac y caiff cleifion eu cyfeirio at apiau iechyd a ffordd o fyw ar-lein. I gleifion heb fynediad i'r rhyngwyd, byddai'r clinig yn argraffu'r wybodaeth berthnasol.

Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael yn y clinig ynglŷn â sut y gall y cleifion ofalu am eu hiechyd cyffredinol.

Urddas a pharch

Roedd amgylchedd y clinig yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd drysau ar bob ystafell ymgynghori a fyddai'n cael eu cau pan fyddai'r ystafell yn cael ei defnyddio, ac roedd y bleinds ar y ffenestri wedi'u cau. Roedd ardal y dderbynfa a'r ystafell aros yn y clinig yn fawr, a dywedwyd wrthym na fyddai mwy na dau glaf yn yr ystafell aros ar unrhyw un adeg. Byddai'r claf yn cael ei dywys i ystafell ymgynghori sbâr i gynnal unrhyw sgysiau cyfrinachol pe bai angen. Gwelsom fod y staff yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion sy'n mynychu'r clinig.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y staff wedi'u trin ag urddas a pharch a bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd yn ystod eu hapwyntiad yn y clinig.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom fod yr arwyddion yn y clinig yn rhai uniaith Saesneg. Roedd y rhan fwyaf o ohebiaeth yn cael ei hanfon at gleifion drwy e-bost.

Dim ond yn Saesneg yr oedd gwybodaeth ysgrifenedig ar gael ar y cyfan ac nid yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni ddywedodd yr un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Fodd bynnag, gan fod y clinig yn gweithredu yng Nghymru, dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried darparu mwy o wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cadarnhaodd y staff y gallent ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu pe bai angen iddynt wneud hynny, er mwyn cyfathrebu â chleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Byddai unrhyw gleifion ag anghenion ychwanegol yn cael eu nodi ar y system cofnodion meddygol a ddefnyddir.

Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall eu gofal iechyd. Roedd pob un ohonynt hefyd yn cytuno bod y staff wedi gwrandao arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y cleifion yn cael gwybodaeth am eu gofal a'u triniaeth, ar bob cam o'r driniaeth. Roedd gwybodaeth ar wefan y clinig am faterion cyffredinol y byddai'r cleifion yn eu hwynebu, a sut i reoli'r rhain. At hynny, roedd y cleifion yn cael gwybodaeth am y gofal a'r driniaeth y byddent yn eu cael, gan gynnwys ôl-ofal. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Nododd y mwyafrif o'r cleifion yn yr holiadur nad oeddent wedi gorfod aros mwy a 15 munud am eu hapwyntiad. Serch hynny, dim ond 75% a ddywedodd eu bod cael gwybod pa mor hir y byddai'n rhaid iddynt aros; dywedwyd wrthym y byddai cleifion ond yn cael gwybod am unrhyw oedi cyn cael triniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod y clinig yn hygyrch iawn i gleifion ag anawsterau symudedd neu'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd lifft ar gael o ardal y fynedfa ar y llawr gwaelod i'r ystafelloedd ymgynghori ar y llawr cyntaf. Nododd y staff eu bod wedi helpu cleifion yn y gorffennol lle bo angen er mwyn sicrhau y gallent fynd i mewn ac allan o'r ystafelloedd ymgynghori a'r clinig. Roedd hyn yn dangos bod y staff yn darparu gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r bobl.

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'i ddiweddarau hefyd ar waith yn y clinig.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar wasanaethau'r clinig na'u defnyddio a'u bod yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir ni waeth a oedd ganddo unrhyw nodweddion gwarchoddedig.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym y gofynnwyd i gleifion gwblhau arolwg ar-lein ar ôl pob ymgynghoriad, a oedd yn darparu adborth wedi'i ddilysu ar gyfer arbenigwyr gofal iechyd Roedd hyn yn cynnwys y profiad cyffredinol, amseroedd aros, a glendid. Dywedwyd wrthym fod y clinig wedi dechrau cynnwys cwestiynau ar broses y system archebu fel rhan o'r arolwg yn ddiweddar. Byddai'r clinig yn ateb pob sylw a bostiwyd, hyd yn oed os mai dim ond 'diolch' neu sylw cadarnhaol oedd yr ateb.

Pe bai sylw negyddol yn cael ei bostio, byddai'r clinig yn gofyn am ragor o wybodaeth er mwyn iddo allu ymchwilio ymhellach. Fodd bynnag, credwn y byddai'r clinig yn elwa ar roi gwybod i'r gleifion am ganlyniadau'r adborth a gasglwyd, er enghraifft drwy fwrdd 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' yn y clinig.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd amgylchedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda heb unrhyw beryglon amlwg, ac roedd yn gynnes ac yn groesawgar. Roedd yr ystafell aros wedi'i haddurno i safon uchel ac roedd y cynllun wedi'i ystyried yn ofalus. Hefyd, esboniodd yr uwchaelodau o'r staff eu cynlluniau ar gyfer yr ystafelloedd ymgynghori er mwyn gwella profiad cleifion ymhellach.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo bod digon o seddau ar gael yn yr ardal aros.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer delio ag argyfwng meddygol, gan gynnwys dadebru, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru, ac roeddem o'r farn bod y rhain yn annigonol.

At hynny, gwnaethom nodi'r canlynol mewn perthynas â chymryd rhagofalon digonol rhag y risg o dân:

- Nid oedd gwiriadau wythnosol o larymau tân a goleuadau allanfeydd tân wedi'u cynnal a'u dogfenni yn y cofnodlyfr tân
- Nid oedd ymarferion tân chwe-misol wedi'u cynnal a'u dogfennu yn y cofnodlyfr tân
- Nid oedd y cynlluniau gweithredu a oedd yn ofynnol gan y gwerthusiad iechyd a diogelwch a risg tân dyddiedig Ebrill 2022 wedi'u diweddarau. Roedd hyn yn cynnwys y gofyniad brys am asesiad risg tân o fewn deufis, nad oedd wedi'i gynnal.

Aethpwyd i'r afael â'r ddau fater yn unol â phroses diffyg cydymffurfio AGIC. Cyfeirir at y rhain yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio, a'i fod yn cael ei newid yn briodol rhwng cleifion. Cyfarpar untro oedd y mwyafrif o'r cyfarpar a ddefnyddiwyd. Roedd biniau offer miniog ar gael ac yn cael eu storio'n briodol. Roedd polisi Atal a Rheoli Heintiau digonol ar waith.

Roedd y clinig yn rhannu'r defnydd o gwmni glanhau â'r darparwr cofrestredig arall ar y safle. Gwelsom dystiolaeth o'r archwiliad glanhau a gwblhawyd yn y flwyddyn gyfredol gan y cwmni glanhau. Nid oedd ystafell ynysu yn yr adeilad, ac yn ystod y

pandemig, arhosodd y cleifion yn eu ceir cyn cael eu galw i mewn i'r clinig ar gyfer eu hapwyntiad.

Roedd nifer o bolisiau cyfredol ar waith yn y practis, y gallai'r staff gael gafeael arnynt ar y system adnoddau dynol.

Er bod archwiliad wedi'i gynnal mewn perthynas â chadw cofnodion clinigol, yn 2020 y cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf o'r defnydd o tristel (diheintydd) a'r chwiledydd sganio uwchsain. Mae angen i'r clinig gynnal mwy o archwiliadau clinigol fel rhan o raglen o archwiliadau clinigol wedi'u dogfennu.

Gwelsom fod hylif diheintio'r dwylo a masgiau i'r cleifion eu defnyddio mewn sawl ardal yn y clinig. Pe bai unrhyw gleifion a fyddai'n cael eu hystyried yn agored i niwed yn mynychu'r clinig, byddent yn cael apwyntiad cyntaf y dydd.

Dywedodd pob claf ond un a gwblhaodd yr holiadur fod y lleoliad yn 'lân iawn'. Dywedodd pob claf a oedd â barn fod mesurau rheoli haint COVID-19 yn cael eu dilyn lle y bo'n briodol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisi diogelu cyfredol ar waith, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau lleol a manylion cyswllt perthnasol. Y rheolwr cofrestredig oedd yr arweinydd diogelu dynodedig, a dywedodd y staff y byddent yn cael gwybod am unrhyw bryderon diogelu er mwyn cydlynu unrhyw gamau gweithredu yr oedd angen eu cymryd.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau a ddiweddarwyd yn ddiweddar ar waith yn y clinig. Er nad oedd unrhyw feddyginiaeth yn cael ei storio ar y safle ar adeg yr arolygiad, o ganlyniad i'r hysbysiad diffyg cydymffurfio roedd angen i nifer o gyffuriau brys gael eu storio ar y safle. Yn dilyn hyn, cawsom gopi o Bolisi a Gweithdrefn ar gyfer Argyfwng Meddygol.

Roedd y clinig yn defnyddio system ar-lein i storio cofnodion cywir o'r holl nodiadau yn ymwneud â chleifion. Roedd fferyllfa gerllaw y gellid cysylltu â hi am gyngor ar unrhyw drefniadau rheoli meddyginiaethau a oedd yn berthnasol i'r clinig.

Darparwyd tystiolaeth o'r archwiliadau a gynhaliwyd yn ymwneud â chadw cofnodion a hebryngwyr.

Roedd y clinig yn darparu gwasanaeth fflebotomi dyddiol, yr oedd y canlyniadau ar gael o fewn yr wythnos.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd y clinig yn cynnwys y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol cywir i ddiwallu anghenion y cleifion, ac roedd y rhain wedi'u lleoli yn yr amgylchedd cywir ar gyfer eu defnyddio. Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw mewn modd amserol, gan gynnwys rhoi gwybod am gyfarpar diffygiol. Darparwyd tystiolaeth o'r gwaith cynnal a chadw hwn, a oedd yn dangos ei fod wedi cael ei gwblhau mewn modd amserol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Drwy siarad â'r staff yn y lleoliad, gan gynnwys yr uwch-aelodau o'r staff, dywedwyd wrthym mai ychydig iawn o'r cleifion a oedd yn mynychu'r clinig oedd ag anghenion ychwanegol. Er bod llinell gyfieithu ar gael i'r clinig ei defnyddio, roedd y cleifion hefyd yn cael eu hannog i ddod â'u cyfieithydd eu hunain. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn gweithio yn y clinig ac yn credu bod y gofal a ddarparwyd yn amserol. Roeddent o'r farn bod y cleifion yn cael gofal mewn amgylchedd diogel lle y gellid cael gafael ar bolisiau a gweithdrefnau clinigol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Cyfeiriodd y staff yn y clinig at system o'r enw Pelvi Power a brynwyd yn ddiweddar, i'w defnyddio fel ffordd o ddatblygu ac ymlacio cyhyrau llawr y pelfis a'r cyhyrau cysylltiedig. Er nad oedd hwn yn wasanaeth yr oedd angen ei gofrestru ag AGIC, roedd yn dangos bod y clinig yn ystyried dulliau ychwanegol o helpu i drin cleifion. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr busnes hefyd yn hyfforddwr pilates, a allai ddelio ag anghenion cleifion yn ymwneud â chyhyrau llawr y pelfis. Byddai'r staff yn aros gyda'r cleifion yn ystod y ddwy wers gyntaf ar y cyfarpar Pelvi Power ac yna'n aros o fewn clyw. Fodd bynnag, er mwyn gwella diogelwch y cyfarpar hwn ymhellach, credwn y dylai'r claf gael cloch neu declyn tebyg wrth ddefnyddio'r cyfarpar er mwyn galw am gymorth. Fel arall, dylai'r claf aros o fewn golwg aelod o'r staff wrth ddefnyddio'r cyfarpar.

Roedd y clinig hefyd wrthi'n cyflogi nyrs menapos arbenigol ac roedd hefyd yn ystyried cyflogi ffisiotherapydd i weithio yn ochr â'r pecyn Pelvi Power. Roedd y clinig yn awyddus i hyrwyddo dull cyfannol o drin y claf.

Rheoli cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl ar hap o gofnodion ar gyfer pump claf. Gwelsom fod y cofnodion yn drefnus, yn hawdd eu deall, yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy. Roedd system cofnodion electronig yn cael ei defnyddio yn y clinig ac roedd y system rheoli cofnodion yn galluogi staff awdurdodedig i weld cofnodion.

Roedd y cofnodion yn dangos bod taflenni gwybodaeth yn cael eu rhoi i gleifion am eu cyflwr, y broses o ymchwilio iddo a'r opsiynau ar gyfer ei reoli, er mwyn iddynt ddeall eu hiechyd a'u salwch eu hunain.

Gwelsom fod y clinig yn cynnig apwyntiadau wyneb yn wyneb a rhithwir, ac y gall olrhain cleifion o'u cyswllt cyntaf hyd at ddiwedd eu triniaeth, gan ddangos eu bod yn cydweithio â gwasanaethau gofal sylfaenol. Ystyriwyd bod y system cadw cofnodion clinigol yn arbennig.

Wrth siarad â dau o'r meddygon ymgynghorol a oedd yn ymwneud â thrin y cleifion, dywedwyd wrthym fod hebryngwyr yn cael eu cynnig i gleifion ar bob achlysur. Fodd bynnag, ar ddau o'r pum cofnod a welsom, nid oedd hyn wedi'i ddogfennu.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd gan y clinig reolwr busnes i helpu'r rheolwr cofrestredig i reoli'r clinig o ddydd i ddydd. Roedd strwythur rheoli clir ar waith, gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Roedd cyfarfodydd staff rheolaidd wedi'u cynnal, a'u dogfennu.

Roedd y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion cyfredol mewn perthynas â'r clinig i'w gweld yn ardal aros y clinig. Roedd y ddwy ddogfen yn cynnwys y wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau cyfredol ar waith, ond byddai'n fuddiol pennu dyddiad adolygu ar eu cyfer er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau pan fo angen. Roedd y rhain ar gael ar y system adnoddau dynol i'r staff eu gweld.

Roedd y rheolwr cofrestredig, yn ychwanegol at weithio'n rheolaidd yn y clinig, yn goruchwyllo'r gwaith o reoli a gweithredu'r clinig. Roedd hefyd wedi ysgrifennu adroddiad diweddar ar y lleoliad fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Dangosodd y canfyddiadau fod trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd clir ar waith er mwyn sicrhau bod y clinig yn gallu cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Roedd y ddau ymgynghorydd yn y clinig yn frwdfrydig dros y gwasanaeth a ddarperir ac yn awyddus i ddangos fod cynlluniau ar waith i wella'r gwasanaeth. Roedden nhw, yn ogystal â'r rheolwr busnes a'r derbynnydd, yn groesawgar. Gwnaethant ymgysylltu'n dda â'r arolygiad ac roeddent yn awyddus i unioni unrhyw faterion a nodwyd mewn modd amserol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig gyfredol ar waith yn y clinig, ac yn cael ei harddangos yn y clinig. Roedd y weithdrefn hon yn nodi pwy y gallai'r cleifion gysylltu â nhw am gyngor, gan gynnwys manylion AGC, yn ogystal â'r amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion.

Roedd trefniadau ar waith i gofnodi digwyddiadau a'u monitro. Dywedwyd wrthym am y broses ar gyfer derbyn, monitro ac ymchwilio i unrhyw gwynion, ac roedd y sampl a welsom o'r cwynion a gofnodwyd yn cadarnhau'r broses hon. At hynny, disgrifiwyd y broses ar gyfer sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu â phob aelod o'r staff.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod nifer y staff a oedd yn gweithio yn y clinig a'u cymysgedd sgiliau yn ddigonol i ddarparu gwasanaethu'r clinig.

Dywedwyd wrthym mai dim ond pan fyddai digon o staff cymwys yn gweithio yn y clinig y byddai apwyntiadau'n cael eu trefnu ar gyfer cleifion. Er bod slotiau amser o 30 munud yn cael eu neilltuo i gleifion fel arfer, roedd y staff clinigol yn angerddol am y gofal a ddarparwyd a byddent yn treulio cymaint o amser ag yr oedd ei angen ar gleifion yn ystod yr ymgynghoriad.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Dim ond yn ddiweddar yr oedd y ddau aelod o staff anghlinigol yn y lleoliad wedi'u penodi, ac nid oeddent wedi cael arfarniadau ffurfiol eto. Cafodd y ddau feddyg ymgynghorol cyflogedig eu harfarnu fel rhan o'u proses ail-ddilysu fel meddygon ymgynghorol yn y GIG.

Gwnaethom edrych ar y ffeiliau staff newydd ar gyfer y ddau aelod o staff anghlinigol, a oedd yn cynnwys geirdaon, disgrifiadau swydd a chontractau. Roedd gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer un o'r aelodau newydd o staff wrthi'n cael ei gwblhau. Dylai'r gwiriad DBS fod wedi'i gwblhau cyn i'r aelod o staff gael ei gyflogi. Er bod gwiriadau DBS ar waith ar gyfer pob aelod arall o'r staff, y dyddiad ar y gwiriad DBS ar gyfer y rheolwr cofrestredig oedd 2017. Mae angen i'r gwasanaeth fodloni ei hun na fu unrhyw newidiadau i amgylchiadau'r staff a fyddai'n effeithio ar eu statws DBS.

Roedd y clinig wedi buddsoddi mewn system adnoddau dynol newydd yn ddiweddar a oedd yn rheoli materion recriwtio a staffio yn ogystal â darparu polisïau a gweithdrefnau y gallai'r practis eu defnyddio. Roedd hyfforddiant staff hefyd yn cael ei reoli ar y system hon. Roedd yn dangos nad oedd y ddau aelod o staff anghlinigol wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol sy'n ofynnol, gan gynnwys hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol, diogelu a chodi a chario.

Dywedodd y staff y gallent gael gafael ar linell gymorth, drwy'r system adnoddau dynol ar lesiant a chwnsela.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Infiniti Healthcare

Dyddiad yr arolygiad: 13 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ddelio ag argyfwng meddygol, gan gynnwys dadebru, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 26	Prynwyd diffibriliwr ar 14 Hydref 2022. Cyrhaeddodd ar 17 Hydref.	Kiron Bhal	17 Hydref
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod meddyginiaeth frys briodol ar gael i'w defnyddio yn y clinig rhag ofn y bydd argyfyngau sy'n bygwth bywyd yn y clinig. Rhaid i'r feddyginiaeth a gedwir gael ei hystyried yn dilyn asesiad risg wedi'i ddogfennu gan y rheolwr cofrestredig o'r mathau o	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 26	Archebwyd bag argyfwng BOC yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none">• Chwistrell glyceryl trinitrad (GTN) (400 microgram/dos)• Anadlydd aerosol Salbutamol (100 microgram/ysgogiad)• Pigiad adrenalín (1:1000, 1mg/ml)• Aspirin gwasgaradwy (300mg)• Pigiad glwcagon (1mg)	Kiron Bhal	Derbyniwyd

<p>argyfyngau a allai ddigwydd yn y clinig.</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Gel glwcos i'w gymryd drwy'r geg • Midazolam 10mg (buccal) <p>Hefyd, tanc ocsigen a chyfarpar i'w roi.</p>		
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wedyn sicrhau bod y gwiriadau angenrheidiol ar waith ac yn cael eu dogfennu er mwyn sicrhau bod y cyfarpar a'r meddyginiaethau hyn ar gael, yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diweddarau'r gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau • Ysgrifennu gweithdrefn ar gyfer camau gweithredu i'w cymryd os bydd argyfwng meddygol • Sicrhau bod y staff wedi'u hyfforddi'n briodol i ddefnyddio'r cyfarpar • Cynnal gwiriadau wedi'u dogfennu wythnosol o'r holl gyfarpar a meddyginiaethau er mwyn sicrhau eu bod yn barod i'w defnyddio 	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 9</p>	<p>Diweddarwyd y gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau ac maent wedi'u hatodi.</p> <p>Mae asesiad risg ar gyfer y bag argyfwng wedi'i atodi.</p> <p>Mae'r weithdrefn ar gyfer argyfwng wedi'i atodi.</p> <p>Mae Dr Nadia Bhal / Dr Kiron Bhal eisoes wedi cwblhau hyfforddiant ar ddadebru yn y GIG.</p> <p>Trefnwyd hyfforddiant cymorth cyntaf yn cynnwys hyfforddiant ar ddefnyddio Diffibriliwr Allanol Awtomataidd ar gyfer 16 Rhagfyr.</p> <p>Gwiriadau i'w cwblhau gan Heather Williams/Corinne Manning ar ôl cael y bag argyfwng. Gweler y rhestr wirio wythnosol/misol atodedig.</p> <p>Mae BOC yn cynnig gwasanaeth monitro effeithiol i ddarparu cyffuriau newydd yn</p>	<p>Kiron Bhal</p> <p>Kiron Bhal</p> <p>Heather Williams</p> <p>Heather Williams</p> <p>Heather Williams/Corrine Manning</p>	<p>19 Hydref 2022</p> <p>20 Hydref 2022</p> <p>20 Hydref 2022</p> <p>16 Rhagfyr 2022</p> <p>7 Tachwedd</p>

<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal gwiriadau misol o ddyddiadau defnyddio'r cyfarpar a'r meddyginiaethau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol • Dogfennu dyddiadau defnyddio'r holl feddyginiaethau a chyfarpar i'w defnyddio yn ystod y gwiriadau misol. 		<p>lle hen rai, a bydd yn darparu canister ocsigen newydd yn lle'r hen un deirgwaith y flwyddyn.</p>		
<p>Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod asesiadau a gwiriadau cyfredol ar waith ac y cânt eu dogfennu a'u diweddarau i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwiriadau wythnosol wedi'u dogfennu o larymau tân a goleuadau'r allanfeydd tân • Ymarferion tân chwe-misol wedi'u dogfennu • Asesiadau risg tân rheolaidd a thystiolaeth gyfredol bod y cynlluniau gweithredu'n cael eu monitro a'u cyflawni. 	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 26 (4)</p>	<p>Asesiad Risg Tân wedi'i ddiweddarau Hydref 2022 - ni osodwyd unrhyw addurniadau Nadolig wrth y grisiau. 4.13: mae sêl wedi'i archebu er mwyn selio'r cloeon mortais.</p> <p>Aethpwyd i'r afael â'r holl faterion yn ymwneud â rheoli diogelwch tân ac mae camau gweithredu wedi'u rhoi ar waith. Bydd Swyddog Diogelwch Tân enwebedig yn sicrhau y caiff y rhain eu cyflawni yn unol â'r cynllun atodedig.</p> <p>Mae ymarfer gwagio yn achos tân (gweler y dystysgrif atodedig) a phrofion wythnosol ar y larymau tân a goleuadau'r</p>	<p>Heather Williams</p> <p>Heather Williams/Corrine Manning</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Cynhaliwyd 18 Hydref 2022.</p>

		<p>allanfeydd tân wedi'u cynnal a'u cofnodi. Penodwyd Corrine Manning yn Swyddog Tân i gynnal gwiriadau wythnosol a misol neu ddirprwy enwebedig, a chaiff ymarferion gwagio chwemisol eu cynnal gan y cwmni tân penodedig. Gweler y wybodaeth atodedig.</p> <p>Cynhaliwyd hyfforddiant mewn perthynas â phrofi larymau tân a goleuadau brys a gwagio yn achos tân hefyd ar yr un dydd.</p> <p>Mae Aseiad Risg Dŵr wedi'i drefnu ar gyfer 17 Tachwedd 2022. Gweler y polisi dŵr atodedig.</p>		
--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Heather Williams

Teitl swydd: Rheolwr y Clinig

Dyddiad: 21 Hydref 2022

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Infiniti Healthcare

Dyddiad yr arolygiad: 13 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am y camau a gymerwyd i sicrhau bod detholiad o daflenni ar gael yn y lleoliad i alluogi'r cleifion i ofalu am eu hiechyd eu hunain.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 3 - Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd	Lawrlwythwyd taflenni ar iechyd a ffordd o fyw a byddant yn cael eu harddangos yn y clinig er mwyn i'r cleifion fynd â chopi adref gyda nhw	Y rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau
Mae'n ofynnol i'r person cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau y caiff canlyniadau adborth a roddwyd a'r camau a gymerwyd yn sgil hynny eu harddangos yn y clinig.	Safon 5 Ymgysylltu â Dinasyddion a Cheisio Adborth Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 19	Caiff adborth ei arddangos yn y clinig fel rhan o'r arolygiad diweddaraf	Y rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol perthnasol, gan gynnwys hyfforddiant ar ddiogelu a diogelwch tân a hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol.	Safon 25 - Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 20 (2) (a)	Mae rhaglen hyfforddiant gorfodol yn cynnwys hyfforddiant ar ddiogelu sy'n berthnasol i'r staff yn y clinig eisoes ar waith, ac mae rhaglen ar-lein Bright HR a hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol eisoes wedi'u trefnu.	Y rheolwr cofrestredig	Hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol wedi'i drefnu ar gyfer 16.12.2022 Raglen orfodol ar waith Hyfforddiant ar ddiogelwch tân wedi'i drefnu yn ystod y mis nesaf.
Rhaid i'r clinig sicrhau y caiff system briodol ei rhoi ar waith i sicrhau y gall cleifion sy'n defnyddio'r system Pelvi Power alw am gymorth neu gael eu goruchwyllo'n barhaus.	Safon 7 - Darparu Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Rydym eisoes wedi archebu camera a system alw ar gyfer yr ystafell sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r ystafell weinyddol er mwyn rhoi gwybod os bydd unrhyw bryderon. Bydd y staff nyrsio sy'n gweithio yn yr ystafell sydd nesaf at ystafell y system Pelvi Power hefyd yn edrych ar y claf bob 15 munud - sef dwywaith yn ystod rhaglen 25-30 munud.	Y rheolwr cofrestredig	Caiff camera/dyfais gysylltu eu gosod yn ystod y pedair wythnos nesaf
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff amrywiaeth o archwiliadau clinigol eu cynnal yn	Safon 6 - Cymryd Rhan mewn Gweithgareddau Gwella Ansawdd	Mae rhestr o archwiliadau clinigol sy'n berthnasol i'r ymarfer yn y clinig wedi'i llunio	Y rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau - bydd archwiliadau'n dechrau ym mis

y clinig fel rhan o raglen o archwiliadau clinigol.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 9 (1) (o)			Ionawr 2022 ar sail dreigl
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff unrhyw gynigion o hebryngwyr eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.	Safon 20 Rheoli Cofnodion Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Atodlen 3	Mae hyn yn ymarfer arferol ar gyfer pob archwiliad clinigol a gynhelir gan glinigydd yn y clinig hwn a dylid atgoffa pob aelod o'r staff i gofnodi hyn yn electronig neu yn ysgrifenedig. Bydd hyn hefyd yn rhan o'r rhaglen o archwiliadau clinigol.	Y rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i'r staff roi gwybod am unrhyw amgylchiadau a fyddai'n effeithio ar eu statws DBS.	Safon 24 - Arferion Recriwtio a Chyflogi'r Gweithlu Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Atodlen 2	Mae'r trefniadau hyn eisoes ar waith ar gyfer unrhyw aelod o staff sy'n gweithio yn y clinig. A fydddech cystal ag awgrymu pa drefniadau eraill y byddai AGIC yn dymuno eu gweld ar waith gan fod hyn yn rhan o gontract staff cyflogedig a'r rhai sy'n gweithio ar sail ad hoc. Caiff staff hefyd eu hatgoffa mewn cyfarfodydd staff neu drwy negeseuon e-bost yn flynyddol.	Y rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Heather Williams

Teitl swydd: Clinig/Rheolwr Busnes

Dyddiad: 12 Rhagfyr 2022